# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 22-06-09

**Presennol:** Y Cynghorydd Gwilym Williams, (Cadeirydd);
Y Cynghorwyr Evie Morgan Jones, a Peter Read.

**Hefyd yn bresennol:** Sion Huws (Swyddog Priodoldeb); Amlyn ab Iorwerth, (Rheolwr Trwyddedu), Geraint Edwards, (cyfreithiwr), ac Ioan Hughes, (Swyddog Pwyllgor).

**Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod:**

**Ymgeiswyr: Alun Harrison a Natallie Harrison**

**Gwrthwynebwyr:** Geraint Jones, yn cynrychioli Cyngor Cymuned Aberdaron :
.

## 1. CAIS AM DRWYDDED EIDDO NEWYDD – HENBLAS, ABERDARON.

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu ar ran Henblas, Aberdaron am drwydded i ganiatáu cerddoriaeth wedi ei recordio ac i werthu alcohol y tu fewn a thu allan i'r eiddo, gyda bwyd rhwng 08:00 a 20:00 pob dydd.

Adroddwyd nad oedd yr Heddlu'n gwrthwynebu'r cais ac nad oedd y Safonau Masnach yn gwneud sylwadau. Derbyniwyd llythyr oddi wrth Gyngor Cymuned Aberdaron yn nodi eu bod yn cefnogi'r cais i gael yfed alcohol gyda phryd o fwyd yn unig y tu mewn i fwyty Henblas ond eu bod yn gwrthwynebu rhoi hawl i yfed alcohol wrth y byrddau tu allan..

Nodwyd mewn ail lythyr fod y gwrthwynebiad yn seiliedig ar atal niwsans cyhoeddus a diogelwch cyhoeddus. Ychwanegwyd ganddynt y gallasai beryglon gael eu creu pe bai gwydrau wedi torri o gwmpas y safle.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol:-

1. Cafodd aelodau'r is-bwyllgor gyfle i ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
2. Cafodd yr ymgeisydd gyfle i ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
3. Rhoddwyd gwahoddiad i bob Ymgynghorai i gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
4. Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion.
5. Cafodd aelodau'r is-bwyllgor gyfle i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd.

6. Gwahoddwyd cynrychiolydd y Cyngor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd

7. Cafodd cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd gyfle i grynhoi eu hachos.

Wrth gefnogi'r cais, dywedodd yr ymgeiswyr mai'r bwriad oedd gwerthu gwin neu gwrw mewn potel gyda phrydau bwyd yn unig. Mewn ymateb i'r sylw ynglŷn â pheryglon o safbwynt gwydrau'n torri, dywedodd yr ymgeiswyr eu bod yn derbyn cyfrifoldeb, a bod gwydrau'n cael eu defnyddio wrth werthu diodydd ysgafn.

Mewn ymateb i'r sylwadau yma, dywedodd cynrychiolydd y Cyngor Cymuned nad oedd yn bresennol yn y cyfarfod pan wrthwynebwyd y cais, ond credai fod peth camddealltwriaeth wedi bod ac nad oedd ei gyd- aelodau yn ymwybodol o wir fwriad yr ymgeiswyr. Yn bersonol credai'r cynrychiolydd y byddai'r newid o fudd i'r pentref.

Mewn ymateb i gwestiynau cadarnhaodd yr ymgeiswyr:

- Mai hwy yw perchnogion y tir tu allan i'r adeilad lle mae'r byrddau wedi eu lleoli
- Mai gyda phrydau bwyd yn unig y byddai alcohol yn cael ei werthu
- Na fyddai alcohol yn cael ei werthu i'w yfed oddi ar eu heiddo.
- Mai cerddoriaeth gefndirol fyddai'n cael ei ddefnyddio.

**PENDERFYNWYD:**
**Caniatáu'r cais ar gyfer chwarae cerddoriaeth wedi ei recordio o dan baragraff F fel a ganlyn:**

- **08.00 awr i 20.30 awr o ddydd Llun i ddydd Sul**

**ar yr amod fod y gerddoriaeth i'w chwarae ar lefel gefndirol ac o fewn yr adeilad yn unig.**

**2. Caniatáu'r cais ar gyfer cyflenwi alcohol ar yr eiddo o dan baragraff M fel a ganlyn:**

- **08.00 awr i 20.00 awr o ddydd Llun i ddydd Sul**

**ar yr amod fod yr alcohol yn cael ei gyflenwi yn atodol i bryniant bwyd yn yr eiddo yn unig.**

**3. Caniatáu oriau agor o dan baragraff O fel a ganlyn:**

- **08.00 awr i 20.30 awr o ddydd Llun i ddydd Sul.**

**Dechreuodd y cyfarfod am 4pm a daeth i ben am 4:20pm**